Archwilio Cymru
Audit Wales

# Llamu Ymlaen – Asedau – Cyngor Bro Morgannwg

Blwyddyn archwilio: 2021-22

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 3069A2022

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Bro Morgannwg fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac Adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Argymhellion 6

Adroddiad manwl

Mae'r Cyngor wedi sefydlu trefniadau sy'n ei helpu i reoli ei asedau'n effeithiol, ond mae angen iddo ystyried sut y gall gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy'n fwy llawn i gryfhau'r trefniadau hyn a chynllunio ar gyfer y dyfodol 7

Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda am ei asedau cyfredol i helpu i oleuo'i gynllun rheoli asedau corfforaethol newydd, ond mae angen iddo ddeall yn well beth yw'r galw tymor hwy am ei asedau a sicrhau ei fod yn gyson â strategaethau allweddol eraill 7

Ceir enghreifftiau cadarnhaol o gydweithio wrth i'r Cyngor gyflawni ei gynllun rheoli asedau corfforaethol 9

Mae gan y Cyngor drefniadau cadarn i fonitro ei gynllun rheoli asedau corfforaethol cyfredol 11

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

1 Fe wnaethom adolygu trefniadau Cyngor Bro Morgannwg (y Cyngor) ar gyfer rheoli ei asedau gyda phrif ffocws ar swyddfeydd ac adeiladau y mae'r Cyngor yn eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau ar gyfer ei drigolion. Fe wnaethom fwrw golwg ar y modd y mae'r Cyngor yn cynllunio'r defnydd o'i asedau'n strategol, sut y mae'n monitro'r defnydd o'i asedau a sut y mae'n adolygu ac yn gwerthuso effeithiolrwydd ei drefniadau.

2 Fe gyflawnom ni'r adolygiad hwn wrth i'r byd symud yn ei flaen, gan ddefnyddio'r profiadau o bandemig byd-eang COVID-19, i fwrw golwg ar y modd y mae cynghorau'n cryfhau eu gallu i drawsnewid, addasu a pharhau i ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys y rhai a ddarperir mewn partneriaeth gyda rhanddeiliaid allweddol a chymunedau.

3 Pan ddechreuom ni ein gwaith archwilio dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 roeddem yn cydnabod y byddai'n cymryd amser i gyrff cyhoeddus wreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ond fe wnaethom hefyd nodi ein disgwyliad dros y tymor canolig y byddai cyrff cyhoeddus yn gallu dangos sut y mae'r Ddeddf yn trefnu'r hyn y maent yn ei wneud. Mae bellach bron yn saith mlynedd ers pasio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac rydym bellach yn yr ail gyfnod adrodd ar gyfer y Ddeddf. Felly, byddem yn disgwyl yn awr i gyrff cyhoeddus fod yn gallu dangos bod y Ddeddf yn rhan annatod o'u ffordd o feddwl a'i bod wir yn trefnu'r hyn y maent yn ei wneud.

4 Roedd gan sylfaen asedau'r Cyngor brisiad o £737.3 miliwn yn 2021 ac roedd yn cynnwys y mathau o asedau a nodir yn **Arddangosyn 1**.

**Arddangosyn 1: sylfaen asedau**

Mae'r tabl isod yn nodi agweddau allweddol ar sylfaen asedau'r Cyngor yn 2021.

| Math o ased | Nifer yn 2021 |
|---|---|
| Swyddfeydd Corfforaethol Craidd | 4 |
| Ysgolion a chanolfannau dysgu | 62 |
| Canolfannau hamdden | 5 |
| Anheddau tai cyngor | 3,894 |
| Llyfrgelloedd | 4 (mae pedair llyfrgell lawn-amser a phum llyfrgell a gaiff eu rhedeg yn gymunedol) |
| Canolfannau Cymuned | 22 |
| Cartrefi preswyl | 4 |
| Canolfannau ailgylchu | 2 |
| Toiledau, parciau a gerddi cyhoeddus | 43 |

Ffynhonnell: Cyngor Bro Morgannwg

5 Fe gynhaliom ni'r adolygiad yn ystod mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2021.

## Yr hyn a ganfuom

6 Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn: A yw dull strategol y Cyngor o reoli ei asedau'n rhoi cymorth effeithiol i'r Cyngor gryfhau ei allu i drawsnewid, addasu a pharhau i ddarparu ei wasanaethau yn y tymor byr a hwy?

7 Ar y cyfan, daethom i'r casgliad canlynol: Mae'r Cyngor wedi sefydlu trefniadau sy'n ei helpu i reoli ei asedau'n effeithiol, ond mae angen iddo ystyried sut y gall gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy'n fwy llawn i gryfhau'r trefniadau hyn a chynllunio ar gyfer y dyfodol.

8 Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda am ei asedau cyfredol i helpu i oleuo'i gynllun rheoli asedau corfforaethol newydd, ond mae angen iddo ddeall yn well beth yw'r galw tymor hwy am ei asedau a sicrhau ei fod yn gyson â strategaethau allweddol eraill;
- ceir enghreifftiau cadarnhaol o gydweithio wrth i'r Cyngor gyflawni ei gynllun rheoli asedau corfforaethol; ac
- mae gan y Cyngor drefniadau cadarn i fonitro ei gynllun rheoli asedau corfforaethol cyfredol.

# Argymhellion

**Arddangosyn 2: argymhellion**

Mae'r tabl isod yn nodi'r argymhellion yr ydym wedi'u hadnabod yn dilyn yr adolygiad hwn.

| Argymhellion |
| --- |
| **A1 Cryfhau'r modd y cymhwysir yr egwyddor datblygu cynaliadwy**<br>Dylai'r cyngor gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy'n fwy llawn wrth reoli ei asedau'n strategol, gan gynnwys:<br>• ystyried tueddiadau tymor hwy a'r galw am wasanaethau yn y dyfodol a allai effeithio ar ddarparu gwasanaethau a defnydd effeithlon o'i asedau adeiledig;<br>• defnyddio dull integredig o sicrhau bod ei ddull strategol o reoli asedau'n helpu i gyflawni ei gynlluniau ehangach, megis datgarboneiddio, y gweithlu a thechnoleg ddigidol; a<br>• chynnwys defnyddwyr gwasanaethau wrth ddylunio'r broses o ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol a allai effeithio ar ei asedau. |

# Adroddiad manwl

## Mae'r Cyngor wedi sefydlu trefniadau sy'n ei helpu i reoli ei asedau'n effeithiol, ond mae angen iddo ystyried sut y gall gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy'n fwy llawn i gryfhau'r trefniadau hyn a chynllunio ar gyfer y dyfodol

### Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda am ei asedau cyfredol i helpu i oleuo'i gynllun rheoli asedau corfforaethol newydd, ond mae angen iddo ddeall yn well beth yw'r galw tymor hwy am ei asedau a sicrhau ei fod yn gyson â strategaethau allweddol eraill

#### Pam ei bod yn bwysig pennu gweledigaeth glir

9 Mae strategaeth glir ar gyfer rheoli asedau a chynlluniau cyflawni wedi'u datblygu'n dda'n bwysig i adnabod y defnydd bwriadedig o asedau dros y tymor byr a hwy; y cyllid sydd ar gael i gynnal a datblygu asedau, yn ogystal â lefel ddisgwyliedig y galw am wasanaethau a chost eu darparu yn y dyfodol. Mae hefyd yn bwysig i adnabod sut y mae'r strategaeth rheoli asedau'n cyd-fynd ac wedi'i hintegreiddio â strategaethau perthnasol eraill, gan gynnwys gweithio ystwyth, y gweithlu, digidol a lleihau carbon. Gall dysgu o'r newidiadau a achoswyd gan bandemig byd-eang COVID-19 helpu cynghorau i gryfhau eu gallu i drawsnewid, addasu a pharhau i ddarparu gwasanaethau.

#### Yr hyn a ganfuom

- Mae gan y Cyngor Gynllun Rheoli Asedau Corfforaethol (CRhAC) 2019-22. Wedi'i gynnwys yn y CRhAC mae Datganiad o Genhadaeth ar gyfer Eiddo sy'n nodi dyhead hirdymor y Cyngor 'i fod â phortffolio darbodus, cynaliadwy sy'n addas ar gyfer y diben i roi cymorth i ddarparu gwasanaethau ledled y Fro'. Nid yw'r CRhAC yn diffinio beth yw hirdymor yn llygaid y Cyngor[1]. Felly nid yw'n glir at ba gyfnod o amser y mae'r datganiad o genhadaeth yn cyfeirio, nac i ba raddau y mae'r Cyngor yn ystyried tueddiadau hirdymor a allai effeithio ar ddarparu gwasanaethau a'r galw amdanynt yn y dyfodol.

---

[1] Nid yw canllawiau statudol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhagnodi faint o amser y mae hirdymor yn ei olygu. Fodd bynnag, 'Pwynt cyfeirio defnyddiol yw bod cenhedlaeth yn cael ei hystyried i fod tua 25 mlynedd. Disgwylir y bydd cyrff cyhoeddus a byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn edrych o leiaf 10 mlynedd ymlaen, er mai arfer gorau fyddai edrych 25 mlynedd ymlaen. Mewn rhai cyddestunau bydd yn hwy na hyn'.

- Wedi'i gynnwys yn y CRhAC mae Polisi Gweithio Doethach y Cyngor gyda ffocws i helpu i wneud y defnydd gorau o swyddfeydd y Cyngor a galluogi gwahanol ddulliau gweithio. Sefydlodd y Cyngor brosiect Gofod hefyd sy'n canolbwyntio ar adeiladau corfforaethol allweddol fel rhan o'r Rhaglen Ail-lunio Asedau Gwasanaethau.
- Cyn y pandemig, fe gynhaliodd y Cyngor adolygiad meddiannaeth o'i brif swyddfeydd i bennu cyfraddau meddiannaeth. O ganlyniad, fe gasglodd y Cyngor ddata ac roedd felly mewn sefyllfa dda i ddeall y defnydd o'i brif swyddfeydd a bwrw ymlaen â gwneud y defnydd gorau o'i swyddfeydd yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn.
- Mae uchelgais y Cyngor i wneud y defnydd gorau posibl o'i swyddfeydd yn dal i fod yn flaenoriaeth wrth i staff weithio gartref lle'r oedd yn bosibl yn ystod y pandemig yn unol â chyfyngiadau Llywodraeth Cymru. Bu cyfarwyddiaethau'n ymgysylltu â staff i ddeall a fyddai ar y rhai a oedd yn gweithio gartref ar y pryd eisiau parhau i weithio gartref, bod â threfniant gweithio hybrid ynteu dychwelyd i'r swyddfa'n gyfan gwbl. Mae'r Cyngor yn disgwyl y byddai'r swyddfeydd a fyddai ar gael yn amgylchedd gweithio cydweithredol, mwy hyblyg.
- Hefyd, tuag at ddiwedd 2021, fe gynhaliodd y Cyngor arolwg ymhlith ei Benaethiaid Gwasanaeth i ganfod beth oedd eu gofynion o ran swyddfeydd yn y dyfodol ac ar adeg ein gwaith maes roedd wrthi'n dadansoddi'r canlyniadau. Ym mis Rhagfyr 2021, fe gynhaliodd y Cyngor grŵp ffocws gyda'r Penaethiaid Gwasanaeth i asesu'r heriau a'r cyfleoedd a gynigir gan drefniadau gweithio hybrid. Mae'r Cyngor yn bwriadu defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd o'r arolwg, y grŵp ffocws ac ymgysylltiad Cyfarwyddiaethau â staff i lunio strategaeth hybrid a goleuo'r fersiwn nesaf o'r CRhAC.
- Am bod hynny'n angenrheidiol oherwydd y pandemig, fe wnaeth gwasanaethau a ddarperir o swyddfeydd y Cyngor gau ac ailagor wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio, er iddynt ailagor gydag amseroedd agor byrrach a system archebu i sicrhau bod pobl yn cadw pellter cymdeithasol. Yn anecdotaidd, nid yw'r cyhoedd wedi adweithio'n anffafriol i'r trefniadau newydd hyn. Fodd bynnag, ni chadarnhawyd hyn gan weithgarwch ffurfiol i gynnwys defnyddwyr gwasanaethau. Ar adeg ein gwaith maes, roedd y Cyngor yn ystyried ailagor y gwasanaethau'n llawn pan fyddai Llywodraeth Cymru'n codi'r holl gyfyngiadau. Dylai'r Cyngor ystyried sut orau i gynnwys defnyddwyr gwasanaethau fel bod ganddo'r dystiolaeth angenrheidiol i ategu unrhyw benderfyniad ynglŷn â'r trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol.
- Mae gan y Cyngor drefniadau cadarn i sicrhau ei fod yn casglu gwybodaeth ar lefel gwasanaethau am ei asedau. Mae pob adran sy'n rhedeg gwasanaethau o ased adeiledig yn cwblhau Cynllun Rheoli Asedau'r Gwasanaeth (CRhAG) yn flynyddol.
- Mae'r templed ar gyfer CRhAG yn cynnwys adrannau ar 'addasrwydd yr eiddo' megis lleoliad a chynllun i'w gwneud yn bosibl darparu gwasanaethau'n effeithlon a 'digonolrwydd' pob ased eiddo i gefnogi anghenion gwasanaethau dros gyfnodau o 0-1 flwyddyn, 1-3 blynedd a 3-5 mlynedd yn y drefn honno. Bydd y templed ar gyfer CRhAG 2022-23 hefyd yn adlewyrchu amcanion llesiant newydd y Cyngor yn

ei Gynllun Corfforaethol 2020-2025 a fydd yn disodli'r amcanion yn y Cynllun Corfforaethol blaenorol.

- Cyn y pandemig roedd y Cyngor yn bwriadu cwblhau adolygiad o asedau meysydd gwasanaeth i ganfod asedau a oedd yn tanberfformio; lleihau nifer yr adeiladau a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau; a chanfod cyfleoedd i ddarparu mwy nag un gwasanaeth o ased (cydleoli). Arweiniodd y pandemig at oedi gyda'r adolygiad hwn, ond yn awr mae'r Cyngor yn bwrw ymlaen â gwaith yn y maes hwn.
- Dechreuodd y broses flynyddol i reoli asedau gwasanaethau ym mis Ionawr 2022 a dylai ddarparu gwybodaeth ynghylch yr hyn y mae ar wasanaethau ei angen i gynnig gwasanaethau effeithlon ac effeithiol i'w defnyddwyr. Bydd canlyniad y CRhAGiau hyn yn helpu i lunio'r rhifyn nesaf o'r CRhAC. Nid yw'r templed cyfredol yn cyfeirio'n benodol at yr angen i gynnwys defnyddwyr gwasanaethau wrth ystyried unrhyw newidiadau i'r modd y darperir gwasanaethau. Gall cynnwys gwasanaethau ddarparu gwybodaeth werthfawr ar gyfer y Cyngor am ddarparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol yn y dyfodol.
- Mae'r Cyngor yn casglu gwybodaeth i gael dealltwriaeth dda am ei asedau adeiledig cyfredol. Cesglir gwybodaeth trwy raglen bum mlynedd i asesu cyflwr ei asedau adeiledig, trwy gwblhau'r CRhAGiau'n flynyddol a thrwy ddata a gesglir am bob ased megis defnydd o ynni, costau rhedeg a chyfraddau cydymffurfio.
- Yn 2022, mae'r Cyngor yn diweddaru'r fersiynau cyfredol o'i Strategaeth Ddigidol, ei Gynllun Rheoli Carbon, Strategaeth y Gweithlu a'r CRhAC. Mae hyn yn rhoi cyfle da i'r Cyngor gysoni ac integreiddio'r strategaethau hyn ymhellach a defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy'n fwy eang i lunio a llywio'r rhifynnau newydd o'r strategaethau hyn.

# Ceir enghreifftiau cadarnhaol o gydweithio wrth i'r Cyngor gyflawni ei gynllun rheoli asedau corfforaethol

## Pam ei bod yn bwysig rheoli'r broses o gyflawni newidiadau arfaethedig i asedau mewn modd effeithiol

10 Mae'n bwysig bod cynlluniau rheoli asedau'n cyflawni'r deilliannau a fwriadwyd yn effeithlon ac yn effeithiol fel bod gwariant gwirioneddol mor agos â phosibl at y lefelau a gynlluniwyd a bod cynghorau'n cyflawni eu dyletswyddau statudol. Gall cydweithio'n effeithiol gyda sefydliadau eraill a chynnwys cymunedau wrth roi sylw i'w hanghenion wella'r gwasanaethau a ddarperir ar gyfer trigolion. Lle nad yw cynghorau'n meddu ar yr ystod o sgiliau, gwybodaeth ac arbenigedd i fynd ati'n effeithiol i reoli asedau'n barhaus a chyflawni newidiadau strategol gall hyn leihau'r gallu i gyflawni'r deilliannau bwriadedig.

## Yr hyn a ganfuom

- Yn ystod ein gwaith maes, canfuom nifer o enghreifftiau o gydweithio mewnol ac allanol da wrth i'r Cyngor gyflawni'r camau gweithredu yn y CRhAC. Mae gan y Cyngor weithgorau adeiladau ar gyfer pob un o'r gwahanol hybiau swyddfeydd a arweinir gan Gyfarwyddwyr y Cyngor, gyda chymorth y tîm Ystadau. Hefyd, roedd y tîm TG yn allweddol o ran dylunio system beilot i archebu lle mewn swyddfeydd er mwyn galluogi staff i archebu lleoliad gwaith i gynnal amgylchedd gweithio diogel yn ystod y pandemig. Fe geisiodd y Cyngor adborth gan y swyddogion hynny a ddefnyddiodd y system archebu newydd ac ar adeg ein gwaith maes roedd wrthi'n dadansoddi'r sylwadau gyda golwg ar gyflwyno'r system archebu i swyddfeydd eraill o bosibl.
- Yn 2021, bu'r Cyngor yn arwain y gwaith o ailsefydlu Grŵp Rheoli Asedau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) i gynnwys yr agenda Newid Hinsawdd. Ceir aelodaeth eang ar y grŵp yma ar draws y sector cyhoeddus, megis Cyfoeth Naturiol Cymru, Ystadau'r GIG, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Heddlu De Cymru, Isadran Tir Llywodraeth Cymru, Coleg Caerdydd a'r Fro, Cynghorau Tref a Chymuned a Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg gyda phresenoldeb da mewn cyfarfodydd.
- Un o rolau allweddol y grŵp yma yw 'cefnogi datblygiad strategaeth ystadau sector cyhoeddus integredig yn seiliedig ar ddealltwriaeth gyffredin am faterion cyfredol gydag ystadau ar draws y sector cyhoeddus. Bydd y strategaeth o gymorth i ddarparu gwasanaethau'n well ac adnabod cyfleoedd ar gyfer cydweithio/cydlynu lle mae adeiladau a daliadau tir y partneriaid sy'n aelodau yn y cwestiwn'. Mae gan y grŵp y potensial i fod yn fecanwaith adeiladol i hwyluso dull mwy integredig a chydweithredol o gynllunio a rheoli asedau ledled y rhanbarth.
- Mae'r Cyngor wedi cydweithio gyda phartneriaid i gydleoli staff mewn un ased megis Gwasanaeth Teuluoedd Integredig Caerdydd a'r Fro yn swyddfa Alpau'r Cyngor yng Ngwenfô, a'r Cydwasanaeth Mabwysiadu yn swyddfeydd y Dociau yn y Barri. Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio gyda'r sector gwirfoddol i ailbwrpasu asedau. Er enghraifft, nododd y Cyngor fod dau adeilad yn Llanilltud Fawr yn rhai nad oedd mo'u hangen mwyach. Yn hytrach na'u gwerthu a chael derbyniad cyfalaf, fe wnaeth y Cyngor geisio diddordeb o blith y gymuned i ysgwyddo'r cyfrifoldeb am yr asedau. Y canlyniad yw sefydliad gwirfoddol sy'n rheoli'r asedau hyn sy'n cynnig gwasanaethau i'r gymuned leol.
- Yn 2020, fe gwblhaodd y Cyngor ddatblygiad Goodsheds yn yr Ardal Arloesi yn y Barri ac roedd yn enillydd yng Ngwobrau Ystadau Cymru yn eu blwyddyn gyntaf am y prosiect gorau yng Nghymru yn y categori "Creu twf economaidd". Rhoddwyd y wobr hon am ei fod yn dangos sut yr oedd sefydliad yn y sector cyhoeddus yn defnyddio'i ystâd i greu twf economaidd megis creu swyddi, cartrefi a chyfleoedd busnes.
- Gellir gweld peth synergedd ac integreiddio rhwng blaenoriaethau'r Cyngor trwy ddyfodiad strategaeth gweithio hybrid y Cyngor. Mae'r strategaeth hon yn canolbwyntio ar yr amgylchedd gweithio, offer a thechnoleg i gynnig ffordd wahanol o weithio i staff. Yn 2018, fe ddiweddarodd y Cyngor ei Gynllun Rheoli Carbon ac

mae hwn i fod i gael ei adnewyddu yn 2022. Mae'r tîm Ynni sy'n gyfrifol am gyflawni'r cynllun hwn yn cydweithio'n agos gyda'r tîm Ystadau ac mae'r ddau'n rhan o'r tîm Eiddo. Mae'r timau'n cydweithio i ostwng costau ynni a lleihau allyriadau carbon ar gyfer adeiladau corfforaethol y Cyngor. Mae'r agenda ddatgarboneiddio'n ysgogydd pwysig yn nefnydd y Cyngor o'i asedau yn y dyfodol a dywedwyd wrthym y byddai'n cael lle mwy amlwg yn y CRhAC newydd.

- Mae gan y Cyngor dîm ystadau bach, sefydlog. Amlygodd proses recriwtio ddiweddar geisiadau is nag arfer, ond gwelir y duedd hon mewn cynghorau eraill hefyd. Un o'r pryderon ar gyfer y dyfodol yw y gallai fod yn fwy o her recriwtio pobl i mewn i'r rolau hyn gyda'r sgiliau proffesiynol angenrheidiol. Fodd bynnag, ar adeg ein gwaith maes, roedd gan y tîm ystadau ddigon o gapasiti o ran staff.

# Mae gan y Cyngor drefniadau cadarn i fonitro ei gynllun rheoli asedau corfforaethol cyfredol

## Pam fod mynd ati'n effeithiol i adolygu'r modd y cyflawnwyd newidiadau arfaethedig i asedau'n bwysig

11 Dylai cynghorau ddefnyddio data i fonitro pa un a ydynt yn cyflawni eu deilliannau bwriadedig yn effeithiol ac yn effeithlon dros y tymor byr a hwy. Gall defnyddio data meincnodi ddarparu mewnwelediad defnyddiol i berfformiad unigol cynghorau a gall adnabod cyfleoedd i ddysgu oddi wrth sefydliadau eraill.

## Yr hyn a ganfuom

- Bob tair blynedd, mae'r Cyngor yn diweddaru ei CRhAC gyda chynllun gweithredu ategol. Cyflwynir adroddiad ar hyn i'r Cabinet; fodd bynnag ni chynhyrchodd y Cyngor adroddiad blynyddol yn 2020 oherwydd y pandemig.
- Mae'r adroddiad blynyddol ar y CRhAC yn cynnwys cynllun gweithredu wedi'i ddiweddaru gyda chynnydd o ran cyflawni'r camau gweithredu sy'n ategu'r pum amcan yn y CRhAC. Datganiadau naratif yw'r rhain yn bennaf gyda phob cam gweithredu'n cael sgôr coch/ambr/gwyrdd (CAG), ond ni nodir beth yw'r meini prawf CAG. Felly, mae dyrannu sgôr CAG yn oddrychol a allai ei gwneud yn anodd i aelodau ddeall yn llawn pa statws a roddir i bob cam gweithredu.
- Yn ogystal â'r adroddiad blynyddol i'r Cabinet ar y CRhAC, mae'r Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau a'r Cabinet yn cael diweddariadau chwarterol ar Gynllun Corfforaethol y Cyngor. Mae camau gweithredu allweddol ar gyfer rheoli asedau, er enghraifft 'adolygu ein hasedau eiddo a thir i ategu newidiadau yn y modd y darperir gwasanaethau, gan gynnwys gweithio ystwyth' yn cael eu cynnwys yn yr adroddiadau chwarterol hyn, gan roi cyfle i aelodau ddeall a herio cynnydd.
- Sefydlodd y Cyngor Fwrdd Mewnwelediad, dan gadeiryddiaeth y Prif Weithredwr, a ddisodlodd nifer o weithgorau gan gynnwys y Grŵp Rheoli Asedau Corfforaethol.

Mae'r Bwrdd Mewnwelediad yn awr yn ystyried unrhyw argymhellion neu geisiadau mewn perthynas â rheoli asedau. Mae'r Rheolwr Gweithredol ar gyfer Eiddo'n aelod o'r Bwrdd Mewnwelediad ac yn arwain ar yr eitem sefydlog ar yr agenda sy'n ymwneud â rheoli asedau gan sicrhau bod y defnydd o asedau'n dal i fod yn weladwy ar y lefel uwch swyddogion hon.

- Er bod y Cyngor yn gefnogol iawn i gymharu trwy feincnodi, gyda'r rheolwr gweithredol ar gyfer eiddo'n aelod o Gonsortiwm Awdurdodau Lleol Cymru (CLAW)[2], mae'r cyfle i gymharu rhwng cynghorau wedi cael ei atal dros dro yn ystod pandemig COVID-19.
- Fel rhan o'n harchwiliad o asesiadau o berfformiad cynghorau ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21, fe wnaethom nodi bod llai o gyfeirio at wybodaeth gymharol am berfformiad gan bod y pandemig wedi arwain at atal rhai prosesau casglu data cenedlaethol. Bydd y gallu i gymharu data a pherfformiad â sefydliadau eraill yn parhau i fod yn elfen bwysig o drefniadau i sicrhau gwerth am arian. Bydd hon yn her y bydd angen i gynghorau fynd i'r afael â hi yn enwedig yng ngoleuni'r dyletswyddau hunanasesu a nodir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.
- Mae gan Grŵp Rheoli Asedau a Newid Hinsawdd BGC y Fro rôl i 'gynnal cyswllt â grwpiau tebyg yn ardaloedd yr awdurdodau cyfagos er mwyn rhannu arfer da, bod yn ymwybodol o gynigion ei gilydd ac adnabod/ystyried cyfleoedd sy'n croesi ffiniau/terfynau'. Ar adeg ein gwaith maes, er bod y grŵp yn dal yn ei ddyddiau cynnar ac yn ennill dealltwriaeth am ofynion y cyrff cyhoeddus unigol o ran asedau, roedd y grŵp yn dechrau edrych y tu allan i'r Fro am wersi ac arfer da, megis Fferm Solar Bae Abertawe.

[2] CLAW | Hafan

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.